Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2014-15

**Tachwedd 2015**

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ADRODDIAD BLYNYDDOL COMISIYNYDD PLANT CYMRU 2014-15**



**Rhagair gan y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC**
**Prif Weinidog Cymru**

Mae'n bleser gen i gael cyfle i ystyried y materion a'r pryderon a fynegwyd gan y Comisiynydd Plant yn ei Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2014-15 ac i ymateb iddynt. Wrth ddarllen yr adroddiad hwn rwy'n cael fy atgoffa ynghylch pwysigrwydd a gwerth parhaus rôl y Comisiynydd o safbwynt hyrwyddo a diogelu hawliau ein plant a'n pobl ifanc. Hoffwn ddiolch i'r Comisiynydd a'i swyddfa am yr adroddiad blynyddol ac am barhau i dynnu ein sylw at yr holl faterion sy'n bwysig i blant a phobl ifanc.

Bu hi'n flwyddyn brysur i swyddfa'r Comisiynydd. Maent wedi croesawu Comisiynydd newydd sydd wedi mynd ati ar unwaith i ystyried arferion gweithio presennol ei sefydliad. Mae hi hefyd wedi gweithio ar argymhellion adolygiad annibynnol Dr Shooter ac rwy'n hapus â'r modd y mae wedi mynd ati'n ofalus i ystyried pob argymhelliad unigol.

Deallaf y bydd y Comisiynydd yn cyflwyno ei nodau strategol ym mis Ionawr 2016, gan gynnwys strwythur y sefydliad a dulliau gweithio a fydd yn ei galluogi i gyflawni'r nodau hyn. Rydym wedi cynnig pob cefnogaeth i'r Comisiynydd.

Mae'r newidiadau hyn yn creu cyfle i ni bwyso a mesur ein cynnydd o ran sicrhau hawliau plant a phobl ifanc yn ystod tymor y Llywodraeth hon. Yn gynharach y mis hwn cyhoeddwyd ein Rhaglen ar gyfer Plant a Phobl Ifanc sy'n amlinellu'r hyn y mae ein Rhaglen Lywodraethu wedi'i gyflawni o safbwynt hawliau plant, ac sy'n parhau i gyflwyno gweledigaeth ar gyfer y dyfodol. Ein safbwynt yn awr, ac o'r dechrau'n deg, yw bod plant a phobl ifanc yn ddinasyddion cyflawn a gweithgar yng Nghymru ac y gallant wneud cyfraniad gwerthfawr ac unigryw at ein cymunedau.

O safbwynt ein gwaith parhaus i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant, rydym wedi ailedrych ar ein strategaeth a byddwn yn parhau i gydweithio â rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys y Comisiynydd. Byddwn hefyd yn parhau i wrando ar blant a phobl ifanc a sicrhau bod eu safbwyntiau'n sail i'n gwaith drwy 'Cymru Ifanc' sef y platfform cenedlaethol ac annibynnol sy'n annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan. Rwy'n falch fod y Comisiynydd wedi croesawu Cymru Ifanc ac wedi cynnig ei chefnogaeth iddynt.

Yn gyfnewid am hyn, rwy’n gobeithio y bydd y Comisiynydd yn teimlo wrth ystyried ein hymateb ein bod yn gwerthfawrogi’r gwaith y mae hi a’i swyddfa yn ei gyflawni. Gobeithiaf hefyd y bydd yn gweld sut rydym wedi gweithredu, a sut y byddwn yn parhau i weithredu, mewn ymateb i bryderon a gaiff eu codi ganddi wrth i bob un ohonom anelu at greu gwell dyfodol ar gyfer plant a phobl ifanc Cymru.

# Cynnwys

**Materion allweddol mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu, fel y nodwyd yn Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru:**

1. Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol ................................ 1

2. Eiriolaeth ................................................................................ 3

3. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) .... 4

4. Ecsbloetio Plant yn Rhywiol ...................................................... 6

5. Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal ....................................... 7

6. Tlodi ........................................................................................ 9

7. Gwasanaethau Cymdeithasol ................................................. 11

## 1. Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol

### *Cefndir*

Yn ei hadroddiad blynyddol, mae'r Comisiynydd yn nodi sut y mae gwelliannau ym mhrofiad addysgol holl blant a phobl ifanc Cymru yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'w swyddfa. Mae ein Rhaglen Lywodraethu, a gyhoeddwyd yn 2011, yn cynnwys ymrwymiad i 'D[d]iwygio'r broses Anghenion Dysgu Ychwanegol ar gyfer y plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed mewn ysgolion neu mewn lleoliadau Addysg Bellach'.

> ***"Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni'r ymrwymiad a nodwyd yn ei Rhaglen Lywodraethu, sef cyflwyno deddfwriaeth newydd, a gefnogir gan God Ymarfer cadarn, sy'n ymateb i anghenion addysg, lles a llesiant plant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol."***
>
> ***Adroddiad Blynyddol CPC 2014-15***

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Rydym yn cydnabod bod y fframweithiau deddfwriaethol presennol ar gyfer cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion addysgol arbennig mewn addysg bellach sydd ag anawsterau dysgu a/neu anableddau bellach wedi dyddio a bod angen eu diwygio. Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflwyno un fframwaith deddfwriaethol i'w cefnogi, sy'n berthnasol i bob plentyn a pherson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, o'u genedigaeth nes eu bod yn 25 oed.

I'r perwyl hwn, fe wnaethom gyhoeddi ein Bil drafft Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a dogfennau ategol amrywiol i ymgynghori arnynt ym mis Gorffennaf 2015. Mae'r rhain yn nodi, mor eglur â phosibl, ein bwriadau deddfwriaethol. Yn benodol, mae'r Bil drafft yn cynnig cyflwyno un cynllun addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol, a elwir yn Gynllun Datblygu Unigol. Bydd y cynllun newydd hwn, a'r prosesau a fydd yn ei gefnogi, yn disodli'r broses asesu bresennol, y mae'r dystiolaeth yn awgrymu sy'n aneffeithlon, yn fiwrocrataidd ac yn gostus, yn ogystal â bod yn broses nad yw'n canolbwyntio ar y plentyn nac yn gyfeillgar i'r defnyddiwr. Yn ogystal, byddwn yn cael gwared ar yr annhegwch cynhenid mewn perthynas â'r amddiffyniad statudol a roddir i ddysgwyr sydd â gwahanol lefelau o angen a'r diffyg dilyniant o ran y cymorth a roddir i ddysgwyr mewn ysgolion ac mewn addysg bellach.

Ar 30 Medi, gwnaethom hefyd gyhoeddi drafft cychwynnol o’r Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol newydd.  Ei nod yw rhoi cymaint o wybodaeth â phosibl ynghylch ein pecyn arfaethedig o ddiwygiadau i’r rhai sy’n bwriadu ymateb i’r ymgynghoriad ar y Bil drafft.

Bydd y Bil drafft yn cael ei ddatblygu ymhellach ar sail yr ymatebion i’r ymgynghoriad a ddaw i law erbyn y dyddiad cau, sef 18 Rhagfyr 2015. Mater i’r Llywodraeth nesaf fydd llunio deddfwriaeth bosibl.

## 2. Eiriolaeth

### *Cefndir*

Cyhoeddwyd 'Lleisiau Coll: yr Hawl i Gael eu Clywed' yn 2014 fel y trydydd mewn cyfres a oedd yn edrych ar ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru sy'n agored i niwed.

> ***"Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod model cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth statudol yn cael ei gytuno a'i weithredu erbyn mis Ebrill 2016, i gyd-ddigwydd â'r gofynion pan ddaw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym."***
>
> ***Adroddiad Blynyddol CPC 2014-15***

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Rydym yn ddiolchgar am gefnogaeth barhaus swyddfa'r Comisiynydd o ran datblygu dull gweithredu cenedlaethol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth statudol. Yn ein hymateb i adroddiadau'r Comisiynydd, rhoddodd gofynnwyd i Awdurdodau lleol ystyried y canfyddiadau a chyflwyno cynigion i wella'r ymwybyddiaeth a'r ddealltwriaeth o wasanaethau eiriolaeth statudol yng Nghymru, a sut y cânt eu darparu.

Rydym yn deall bod y grŵp gorchwyl a gorffen o dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (yr oedd gan Swyddfa'r Comisiynydd gynrychiolydd arno) yn gwneud cynnydd da o ran datblygu'r achos busnes a fydd yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r Comisiynydd ynghylch gwasanaethau eiriolaeth statudol yng Nghymru. Dylai canlyniadau'r gwaith hwnnw gael eu cyflwyno i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i'w hystyried ym mis Tachwedd.

Gosodwyd y cod ymarfer ar eiriolaeth o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n cadarnhau hawl plant i gael mynediad at wasanaethau eiriolaeth statudol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 3 Tachwedd, a bydd yn cael ei weithredu ym mis Ebrill 2016.

## 3. Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a’r Glasoed (CAMHS)

### *Cefndir*

Mae gwella iechyd meddwl a lles meddyliol yn gallu helpu i fynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd ac anghydraddoldebau eraill, i gynyddu lefelau addysg, ennill cymwysterau a chyfleoedd cyflogaeth, i fynd i’r afael â thlodi, camddefnyddio cyffuriau ac alcohol, a digartrefedd ac i leihau nifer y bobl ifanc sy’n mynd i mewn i’r system cyfiawnder ieuenctid.

> ***“Rhaid i Lywodraeth Cymru a’r partneriaid allweddol perthnasol, gan gynnwys Byrddau Iechyd Lleol, addysg a gwasanaethau eraill sy’n cael effaith ar iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc gyflawni eu rhaglen wella ar gyfer CAMHS, a hynny ar frys. Mae ymgysylltu â phlant a phobl ifanc fel rhan o ddatblygiad yn hanfodol yn hyn o beth. Mae’n bwysig canolbwyntio ar gyflawni newid a gweld cynnydd clir ym mhrofiadau plant a phobl ifanc o wasanaethau iechyd meddwl.”***
>
> ***Adroddiad Blynyddol CPC 2014-15***

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Rydym yn cydnabod bod ymgysylltiad plant a phobl ifanc â datblygiad gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol yn y dyfodol yn gam pwysig tuag at sicrhau y bydd y gwasanaethau hyn yn diwallu eu hanghenion.

I’r perwyl hwn, mae’r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, a arweinir gan y GIG ac a lansiwyd yn gynharach eleni, yn bwriadu symud CAMHS yn eu blaenau i’w gwneud yn addas at y diben ar gyfer anghenion plant a phobl ifanc yn y dyfodol. Rhaglen aml-asiantaeth, aml-broffesiwn yw Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc y bwriedir iddi wella’r gwasanaethau iechyd emosiynol a meddyliol a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Lansiwyd y rhaglen tua diwedd mis Chwefror 2015 a chaiff ei harwain gan y GIG yng Nghymru gyda’n cefnogaeth ni.  Rydym yn cefnogi’r gwaith hwn ac wedi buddsoddi £7.65m o arian ychwanegol mewn CAMHS o 2015-16 ymlaen. Rydym hefyd wedi comisiynu’r seiciatrydd plant, yr Athro a’r Fonesig Sue Bailey, sy’n rhyngwladol adnabyddus, i roi cyngor ac i graffu ar y gwaith hwn ar gyfer y GIG a’i bartneriaid. Mae’r Comisiynydd Plant yn ymgysylltu â’r gwaith hwn.

Byddwn yn parhau i weithio’n agos gyda Swyddfa’r Comisiynydd Plant, Plant yng Nghymru a ‘Grŵp Cydweithredol Anghenion Uchel’ y trydydd sector i sicrhau mewnbwn parhaus gan blant a phobl ifanc.

Bydd arolwg ‘Beth Nesa/What Next’ y Comisiynydd, prosiect ‘Cymru Ifanc’ Plant yng Nghymru, ac arolwg ‘Gwneud Synnwyr’ Hafal yn cael eu defnyddio fel y prif ddulliau ymgysylltu ac er mwyn galluogi Bwrdd Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc i gadarnhau ei flaenoriaethau gyda phlant a phobl ifanc yn uniongyrchol.  Cytunwyd y dylid casglu ynghyd brif negeseuon y mentrau hyn i greu cyfres o themâu cyffredin y gellid eu rhannu â ffrydiau gwaith penodol Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc i sicrhau bod eu camau gweithredu yn mynd i’r afael â’r materion sy’n bwysig i blant a phobl ifanc. Bydd adroddiad ‘Dywedasoch chi / Gwnaethom ni’ yn cael ei ddatblygu i amlygu’r camau a gymerwyd i ymateb i’r materion hyn. Bydd hyn yn dangos yn glir sut mae’r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn gwrando ac yn ymateb i’r materion a godwyd gan blant a phobl ifanc.

## 4. Ecsbloetio Plant yn Rhywiol

### *Cefndir*

Mae Ecsbloetio Plant yn Rhywiol yn cael ei gydnabod fel ffurf ar gam-drin lle caiff plant a phobl ifanc eu gorfodi neu eu perswadio i gymryd rhan mewn gweithgareddau lle cânt eu hecsbloetio'n rhywiol yn gyfnewid am rodd neu wobr.

> ***"Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllun gweithredu cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi erbyn diwedd 2015, ochr yn ochr â chyfarwyddeb i'r holl Fyrddau Diogelu Rhanbarthol, yn amlinellu'r data y mae'n rhaid ei gasglu a'i gofnodi yng nghyswllt CSE. Bydd coladu'r data hwn yn helpu Llywodraeth Cymru i greu darlun cenedlaethol o CSE yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru asesu lefelau'r adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni'r cynllun gweithredu hwn, er mwyn sicrhau newid gwirioneddol, cynaliadwy i'r plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn perygl o wynebu CSE neu sydd eisoes wedi'i ddioddef."***
>
> ***Adroddiad Blynyddol CPC 2014-15***

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Rydym wedi arwain datblygiad Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol ac yn defnyddio'r grŵp traws-sector o dan gadeiryddiaeth y Comisiynydd i sicrhau bod y partneriaid diogelu'n ymgysylltu'n llawn ac yn cymryd rhan lawn yn y broses. Mae'r cynllun yn datblygu camau gweithredu cenedlaethol, rhanbarthol a lleol y partneriaid sydd, yn eu tro, yn adlewyrchu eu harchwiliadau unigol a chyfunol.

Bydd y Cynllun yn cael ei lywio gan ddata a fydd yn cefnogi'r partneriaid diogelu i ddeall yn well pa mor ddifrifol yw'r risgiau i blant a pha mor agored i niwed ydynt, a defnyddio gwybodaeth i dargedu bygythiadau gan unigolion neu o ran lleoliadau.

Ers 2011, mae protocol amlasiantaeth penodol ar Ecsbloetio Plant yn Rhywiol wedi'i gynnwys mewn gweithdrefnau diogelu plant i Gymru gyfan a'i gefnogi drwy ganllawiau statudol a'r Gwasanaeth Fframwaith Asesu Risg Ecsbloetio yn Rhywiol. Mae hyn wedi rhoi'r hyder i'r partneriaid diogelu yn sgil cael dull gweithredu cydlynus ledled Cymru.

Rydym wedi comisiynu Barnardo's i ddarparu dwy raglen o hyfforddiant penodol I ymarferwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ar y protocol fel rhan hanfodol o gydnabod ac ymateb i Ecsbloetio Plant yn Rhywiol a'i risgiau.

## 5. Plant a Phobl Ifanc sy'n Derbyn Gofal

### *Cefndir*

Cynllun gan Lywodraeth Cymru yw 'Pan Fydda i'n Barod' sy'n cefnogi'r rheini sy'n gadael gofal sydd am barhau i fyw gyda'u gofalwyr maeth ar ôl iddynt droi'n 18 oed. Fe'i cyflwynwyd ledled Cymru ym mis Mawrth 2015. Disgwylir i Awdurdodau Lleol ddatblygu cynlluniau lleol yn unol â'r canllawiau cenedlaethol.

> ***"Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i estyn y cynllun 'Pan fydda i'n Barod' i bob person ifanc mewn gofal, gan gynnwys y rhai sydd mewn lleoliadau preswyl. Rwy'n annog Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid digonol i awdurdodau lleol i sicrhau bod y cynllun yn cael ei weithredu'n effeithiol ledled Cymru."***
>
> ***Adroddiad Blynyddol CPC 2014-15***

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Rydym yn ddiolchgar i Swyddfa'r Comisiynydd Plant am gefnogi datblygiad 'Pan Fydda i'n Barod'. Fe'i lansiwyd ym mis Mawrth 2015, pan wnaethom gyhoeddi canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol ynghylch sefydlu a rhedeg eu cynlluniau 'Pan Fydda i'n Barod' lleol. Bydd gan awdurdodau lleol ddyletswyddau newydd i hyrwyddo 'Pan Fydda i'n Barod' pan ddaw'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym ym mis Ebrill 2016.

Ffocws cychwynnol 'Pan Fydda i'n Barod' yw galluogi pobl ifanc mewn gofal maeth i aros gyda'u gofalwyr maeth blaenorol pan fyddant yn troi'n 18 oed. Dyma oedd ffocws yr ymgyrch 'Chance to Stay' o dan arweiniad Achub y Plant, a'r cynllun 'Staying Put' yn Lloegr.

Rydym yn cytuno â'r Comisiynydd bod gan blant ifanc mewn gofal preswyl angen penodol am sefydlogrwydd hefyd wrth iddynt drosglwyddo o ofal i fyw fel oedolion a byw'n fwy annibynnol. Yn aml, y rhain yw'r plant sydd â'r hanesion gofal mwyaf dryslyd ac, o'r herwydd, mae eu hangen am sefydlogrwydd o leiaf yr un mor gryf ag angen eu cyfoedion sydd mewn lleoliadau gofal maeth. Ar hyn o bryd, dim ond os gellir canfod lleoliad gofal maeth iddynt cyn iddynt droi'n 18 oed y gall bobl ifanc mewn gofal preswyl gael mynediad i 'Pan Fydda i'n Barod', a gellir ei newid i fod yn drefniant 'Pan Fydda i'n Barod' pan fyddant yn troi'n 18 oed. I rai, bydd hyn yn newid cadarnhaol, ond bydd eraill yn dymuno cadw eu cysylltiadau â'r cartref y buont yn byw ynddo a'r staff sydd wedi eu cefnogi drwy flynyddoedd eu harddegau. Gellir gwneud hyn mewn amryw o ffyrdd, fel y dangosodd yr arolwg cwmpasu diweddar a gynhaliwyd yn Lloegr. O ran penderfynu ar y

cam gorau ymlaen, hoffem ddysgu o'r profiad yn yr Alban, sydd eisoes wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd yn y maes hwn, a hefyd o'r cynlluniau peilot yn Lloegr. Mae materion ymarferol ac ariannol hefyd y bydd angen inni eu hystyried yn ofalus iawn.

Rydym wedi ymrwymo i weithio drwy'r materion hyn gyda'r holl randdeiliaid perthnasol, gan gynnwys pobl ifanc mewn gofal preswyl, a swyddfa'r Comisiynydd Plant. Fel cam cyntaf, byddwn yn ailgynnull y Grŵp Monitro 'Pan Fydda i'n Barod' er mwyn gwerthuso'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn ac ystyried sut y caiff y cynllun ei ddatblygu yn y dyfodol.

Rydym yn gwerthfawrogi'r ffaith y bydd goblygiadau ariannol i Awdurdodau Lleol, pobl ifanc a'u gofalwyr yn sgil rhoi 'Pan Fydda i'n Barod' ar waith, er bod profiad yr awdurdodau peilot wedi dangos ei bod yn anodd pennu'n union pa gostau gweithredu ychwanegol fydd gan awdurdodau lleol i'w talu, o gofio natur amrywiol ac anrhagweladwy costau cefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal yn gyffredinol. Credwn, dros amser, y bydd costau gweithredu 'Pan Fydda i'n Barod' yn cael eu gwrthbwyso gan arbedion eraill o ran y gost o adael gofal, oherwydd bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi i symud i fyw'n fwy annibynnol pan fyddant yn barod i wneud hynny ac nid ynghynt. Mae'r broses o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn ei chyfanrwydd yn cael ei chefnogi gan gyllid gweithredu sy'n cael ei ddarparu gan sefydliadau cydweithredol rhanbarthol. Y rhanbarthau fydd yn penderfynu sut y byddant yn defnyddio'r cyllid hwn i gefnogi'r broses o weithredu'r Ddeddf.

## 6. Tlodi

### *Cefndir*

Mae tlodi plant yn annerbyniol ac mae lefelau yng Nghymru'n dal i fod yn ystyfnig o uchel. Mae ein data diweddaraf yn dangos inni bod bron i un plentyn ym mhob tri ynbyw mewn aelwyd incwm isel ar hyn o bryd.

> ***"Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi cynllun gweithredu penodol ar dlodi plant, a fydd yn bodoli ochr yn ochr â'r Strategaeth Tlodi Plant a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Dlodi, er mwyn nodi'n ymarferol sut mae'n bwriadu cyflawni ei thargedau a'i hamcanion."***
>
> ***Adroddiad Blynyddol CPC 2014-15***

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Ar sail y pwyslais cryf ar dlodi plant yn ein Cynllun Gweithredu ar Gyfer Trechu Tlodi i bobl o bob oed, nid yw'r Llywodraeth yn credu bod angen Cynllun Gweithredu ar Dlodi Plant ar wahân.

Mae ein Cynllun Gweithredu ar Gyfer Trechu Tlodi yn nodi'r prif gerrig milltir a thargedau a'r ymrwymiadau pwysig sy'n canolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc. Mae'r targedau a'r ymrwymiadau hyn wedi'u cysylltu'n uniongyrchol â'r amcanion yn ein Strategaeth Tlodi Plant. Er enghraifft, ceir targedau ar gyfer gwella canlyniadau iechyd a gwybyddol plant yn y blynyddoedd cynnar, torri'r cysylltiad rhwng tlodi a chyrhaeddiad addysgol, lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant, a lleihau nifer y teuluoedd sy'n byw ar aelwydydd heb waith.

Rydym yn defnyddio'r Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar Gyfer Trechu Tlodi i fesur y cynnydd ar fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru. Mae hefyd yn darparu'r dull ar gyfer ailwampio'r agenda tlodi a phennu ymrwymiadau newydd i wella canlyniadau aelwydydd incwm isel.

Eleni, roedd yr Adroddiad Blynyddol ar y Cynllun Gweithredu ar Gyfer Trechu Tlodi yn cynnwys camau gweithredu ac ymrwymiadau newydd er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau yn y Strategaeth Tlodi Plant Diwygiedig, a gyhoeddwyd gennym ym mis Mawrth 2015. Mae hyn yn cynnwys ymrwymiadau a fydd yn cyfrannu at gynyddu'r gofal plant sydd ar gael a'i wneud yn fwy fforddiadwy, lleihau tlodi bwyd, lliniaru effeithiau diwygio'r system lles, lleihau tlodi mewn gwaith, a thai ac adfywio.

Bydd cyflawni'r targedau yn y Cynllun Gweithredu ar Gyfer Trechu Tlodi yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at wella canlyniadau plant a theuluoedd sy'n

byw ar aelwydydd incwm isel. Yn hanfodol, bydd hefyd yn galluogi a chefnogi plant a phobl ifanc o aelwydydd incwm isel i weithredu eu hawliau.

Rydym wedi nodi bod cyflawni ein Strategaeth Tlodi Plant yn ymrwymiad sy’n cael blaenoriaeth, mewn perthynas â’r agenda hawliau plant. Mae tlodi’n rhwystr sylfaenol i blant a phobl ifanc allu gweithredu eu hawliau. Drwy fynd i’r afael â thlodi, gallwn wneud cyfraniad mawr at wella canlyniadau, sy’n egwyddor sydd wrth galon Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (CCUHP).

## 7. Gwasanaethau Cymdeithasol

### *Cefndir*

Cyflwynwyd y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar 23 Chwefror 2015. Diben y Bil yw gwella ansawdd gofal a chymorth yng Nghymru a chryfhau diogelwch dinasyddion.

> ***"Rwy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod dyletswydd sylw dyledus i CCUHP yn cael ei chynnwys ar wyneb y Bil Rheoleiddio ac Arolygu."***
>
> ***Adroddiad Blynyddol CPC 2014-15***

### *Ymateb Llywodraeth Cymru*

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi nodi ei safbwynt ar sawl achlysur mai'r ffordd orau o ddiogelu hawliau unigolion sy'n agored i niwed yw creu fframwaith rheoleiddio a fydd yn sicrhau bod y swyddogaethau priodol ar gael i reoleiddwyr hyrwyddo a chynnal safonau uchel wrth ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol a, lle bo hynny'n angenrheidiol, ymyrryd er mwyn gwarchod unigolion sy'n agored i niwed rhag niwed.

Mae'r Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn creu'r fframwaith hwn. Lluniwyd y Bil i warchod buddiannau unigolion sy'n agored i niwed; bydd hyn yn digwydd drwy osod dyletswyddau manwl ar ddarparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol a chyflwyno pwerau wedi'u teilwra i reoleiddwyr a sefydlwyd er mwyn diogelu buddiannau pobl sy'n agored i niwed. Rwyf yn hyderus bod y system reoleiddio a grëwyd gan y Bil wedi'i llywio gan hyn a chonfensiynau ac egwyddorion eraill.

Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol o'r farn bod y dull gweithredu yn y Bil hwn yn gweddu'n well fel ffordd o ddiogelu pobl sy'n agored i niwed. Drwy ymgorffori hawliau plant o fewn Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, mae eisoes yn ofynnol bod Gweinidogion Cymru'n talu sylw dyledus i CCUHP wrth ddefnyddio eu pwerau a gwneud penderfyniadau. O ganlyniad, wrth ddatblygu safonau statudol gan ddefnyddio'r pwerau rheoleiddio ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru), bydd dyletswyddau CCUHP yn cael eu hystyried yn llawn.